# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones


15 Hydref 2020

Annwyl Riant/Warcheidwad

**DIWEDDARIAD PWYSIG I DDISGYBLION A RHIENI**

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cydweithrediad ers i ni agor ym Mis Medi. Dymunaf rannu ychydig o ddiweddariadau pwysig fydd yn grymuso ymhellach ein cynllun ail-agor dros fisoedd y gaeaf.

**NEWIDIADAU DROS DRO I AMSERLEN Y DYDD**

Yn ystod pandemig Covid-19 mae Llywodaeth Cymru wedi rhoi pwerau pellach i ysgolion allu addasu'r diwrnod ysgol. Er ein bod wedi gallu ail-agor yn llwyddiannus iawn, rwy'n ymwybodol bod gennym fisoedd hir y gaeaf o'n blaenau. Mae sicrhau parhâd i'r amserlen wedi bod yn flaenoriaeth gennym, ond credaf y bydd yr addasiadau tymor byr hyn yn cyfrannu at wella profiad y disgyblion a staff yn y cyfnod pryderus hwn, ynghyd â chynorthwyo i leihau'r risg i bawb.

O ddydd Mawrth, y 3ydd o Dachwedd bydd y diwrnod ysgol yn darfod am 3pm. **Ni fydd unrhyw ostyngiad** yn yr amser addysgu, gan y byddwn yn cwtogi y cyfnod cinio o 15 munud; bydd hyn hefyd yn lleihau symudiadau o fewn y swigan flwyddyn yn ystod yr amser cinio.

Ffactor arall i'r penderfyniad hwn ydy sicrhau y bydd pob disgybl yn cyrraedd adref mewn golau dydd dros dymor y Gaeaf. Mae tîm trafnidiaeth yr awdurdod lleol a'r holl gwmnïau bysus hefyd wedi cytuno i'r newid hwn dros dro.

**AMSERLEN Y DYDD**

| Amser | Gweithgaredd |
|---|---|
| 08:35 - 08:55 | Cofrestru, Gwasanaeth a Dal fyny |
| 08:55 - 09:45 | Gwers 1 |
| 09:45 - 10:35 | Gwers 2 |
| 10:35 - 10:50 | Egwyl |
| 10:50 - 11:40 | Gwers 3 |
| 11:40 - 12:30 | Gwers 4 |
| 12:30 - 13:15 | Cinio |
| 13:15 - 13:20 | Symud i wers 5 a chofrestru |
| 13:20 - 14:10 | Gwers 5 |
| 14:10 - 15:00 | Gwers 6 |

**CYNLLUNIAU ERAILL WEDI'R HANNER TYMOR**

Yn ogystal ag ail-agor yr ysgol yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r llwyodraeth, roeddem hefyd yn ceisio sicrhau cymaint o normalrwydd â phosib. Er nad ydym yn gallu cynnig byrbrydau amser egwyl ar hyn o bryd, rydym wedi gallu cynnig bwyd poeth amser cinio o'r disgyblion ers y diwrnod cyntaf. Hoffwn ddiolch i holl staff Caterlink am gyd-weithio mor llwyddiannus ar ein model hyblyg newydd.

# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones


**CYNLLUNIAU CYFFROUS**
Mae'n bosib y byddwn yn gallu dechrau gwerthu brecwast ar ôl yr hanner tymor – cyn belled bod digon o ddiddordeb ymysg y plant. Rydym yn bwriadu ymgynghori efo'n disgyblion am hyn a byddwn yn eich diweddaru gyda'r manylion.

**Y MODEL CINIO**
Gallaf gadarnhau y byddwn yn parhau i ddarparu pryd ar glyd drwy'r system archebu i flwyddyn 10 ac 11. Byddwn yn defnyddio'r babell fawr i flwyddyn 10 a Bro Alaw i flwyddyn 11.

Bydd blwyddyn 8 yn parhau i gael eu cinio yn y Theatr, fel ffreutur ychwanegol.

Mae rhai newidiadau i Flwyddyn 9. Byddwn yn darparu cinio iddynt yn y Gampfa fach o'r 3ydd o Dachwedd ymlaen. Bydd disgwyl i'r disgyblion archebu eu cinio ar-lein rhwng 7am-10am ar y diwrnod a gellir dod o hyd i'r linc ar gyfer archebu ar Dudalen Gartref y wefan dan Y Diwrnod Ysgol.

Bydd newidiadau i drefn cinio blwyddyn 9 yn caniatau i ni ymestyn parth allanol blwyddyn 7 fydd yn rhoi ardaloedd sych dan draed iddynt dros y Gaeaf.

Er mwyn gwella profiadau disgyblion yn ystod amser cinio byddwn yn dangos ffilmiau a rhaglenni teledu yn y Theatr a'r Gampfa fach i flynyddoedd 8 a 9.

**DYDDIADAU HYFFORDDIANT – DISGYBLION DDIM YN BRESENNOL**
Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 9 Hydref 2020 bydd y staff yn cael diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd ar *Ddysgu Cyfunol a Dysgu Digidol* ar y dyddiau canlynol:

**DYDD GWENER 23/10/20**
**DYDD LLUN 02/11/20**

**** Cofiwch ei bod yn wyliau hanner tymor DYDD LLUN 26/10/20 – DYDD GWENER 31/10/20 ****

Ni fydd ysgol i'r plant ar y dyddiau hyn.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi gyd am eich cefnogaeth, a thra bod achosion Covid-19 wedi bod yn isel ar Ynys Môn diolch byth, rydym yn ymwybodol y gall hyn newid yn gyflym iawn ac mae angen i ni gyd fod yn wyliadwrus dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Hoffwn eich sicrhau bod gennym baratoadau mewn lle ar gyfer unrhyw newid i'r drefn ac rydym yn brysur baratoi codau Google Classroom pe cyfyd achos bod angen i'n disgyblion weithio o adref.

Byddwn yn parhau i rannu canllawiau diweddaraf y Llywodraeth a'r Awdurdod yn adran Covid-19 ein gwefan
http://www.ysgoluwchraddbodedern.org

Cadwch yn ddiogel i gyd!

Yn gywir iawn

Paul G S Matthews-Jones

Paul Matthews-Jones
Pennaeth

# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones

15 October 2020

Dear Parent / Guardian

**IMPORTANT UPDATE FOR PUPILS AND PARENTS**

Thank you to everyone for their co-operation since we opened in September. I wish to share important updates with you which will further strengthen our re-opening plans over the Winter months.

**TEMPORARY ADJUSTMENTS TO THE DAILY TIMETABLE**

During the Covid-19 pandemic the Welsh Government has provided schools with further powers to adjust the school day. Although we have been able to re-open very successfully, I am aware that we have the long winter months ahead of us. Whilst ensuring the continuation of the timetable is our main priority, I believe that these minor adjustments, in the short term, will contribute towards a better experience for both pupils and staff during this very worrying time. We also aim to minimize the risk for everyone.

Therefore, from Tuesday, 3rd November the school day will finish at 3pm. **There will be no reduction** in teaching time, as we are reducing the lunch period by 15 minutes. This will also reduce the movement in year bubbles during the lunch time break.

Another factor that has contributed to this decision is that we can ensure that every pupil arrives home in daylight during the Winter term. The local authority's transport team and all our local bus companies have also agreed to this short term arrangement.

**SCHOOL DAY TIMETABLE**

| Time | Activity |
|---|---|
| 08:35 - 08:55 | Registration, Assembly and Catch-up |
| 08:55 - 09:45 | Lesson 1 |
| 09:45 - 10:35 | Lesson 2 |
| 10:35 - 10:50 | Egwyl |
| 10:50 - 11:40 | Lesson 3 |
| 11:40 - 12:30 | Lesson 4 |
| 12:30 - 13:15 | Lunch |
| 13:15 - 13:20 | Move to lesson 5 and registration |
| 13:20 - 14:10 | Lesson 5 |
| 14:10 - 15:00 | Lesson 6 |

**OTHER PLANS AFTER THE HALF TERM**

In addition to re-opening the school safely and in line with government guidelines, we have also tried to ensure that things remain as normal as possible. Although we've been unable to offer refreshments during break time since re-opening, we have been able to offer our pupils hot food since day one. I wish to thank all our Caterlink staff for their full co-operation and for ensuring that our new flexible model is successful.

# YSGOL UWCHRADD BODEDERN

Bro Alaw, Bodedern, Ynys Môn, LL65 3SU
01407 741000
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk / swyddfa@bodedern.ynysmon.sch.uk

Pennaeth : Mr Paul G. S. Matthews-Jones

**EXCITING PLANS**
We may be able to start selling breakfast after the half term – providing there is enough interest for this service. We are in the process of consulting with our pupils and will contact you to let you know of any updates and details.

**THE LUNCH TIME MODEL**
I can confirm that we will continue to provide the pre-order delivery service for years 10 and 11. We will continue to use the large marquee for year 10 and Bro Alaw for year 11.

Year 8 will continue to use the Theatre as the additional canteen.

There are some changes to year 9. From 3rd November onwards we will be providing the pre-order and delivery lunch in the smaller Gym. Pupils are expected to order on-line between 7am-10am on the day of delivery and the link can be found on the school website: Homepage/School Day.

The changes to Year 9 will allow us to extend the external zone for year 7 and will ensure additional dry areas under foot over Winter.

In order for us to improve our pupils' experience during lunchtime, films and TV programmes will be shown in the Theatre and Gym to years 8 and 9.

**TRAINING DAYS – PUPILS NOT PRESENT**
As I noted in my letter dated 9 October 2020 the staff will attend INSET Training Days on *Blended Learning and Digital Teaching* on the following dates:

**FRIDAY 23/10/20**
**MONDAY 02/11/20**

**** Remember that it's half term holidays from MONDAY 26/10/20 – FRIDAY 31/10/20 ****

The pupils will not be in school on these days.

I wish to thank you all for your support, and whilst thankfully, Covid-19 cases on Anglesey have been low, we are fully aware that this can change very suddenly and it's necessary for us all to be extremely vigilant over the next few weeks and months. I can assure you that we have preparations in place if there is any change to this re-opening model and we are busy preparing Google Classroom codes if any cases arise where pupils need to work form home.

We will continue to share the latest Government and Local Authority Guidelines with you in our Covid-19 section on our brand new website. http://www.ysgoluwchraddbodedern.org

Please stay safe!

Yours sincerely

Paul G S Matthews-Jones

Paul Matthews-Jones
Headteacher